# Elusen Ogwen

## Telerau ac Amodau Grant / *Grant Terms & Conditions*

**1. Defnyddio Grant**

a. Rhaid i'r Ffurflen Derbyn Grant cael ei llofnodi gan swyddog awdurdodedig yn eich sefydliad a'i dychwelyd at Elusen Ogwen o fewn 21 diwrnod. Trwy ei llofnodi rydych yn cadarnhau bod y wybodaeth a roddir yn eich Cais am Grant yn gywir hyd y gwyddoch, ac yn cytuno y bydd eich sefydliad yn cadw at yr amodau a'r telerau hyn.

b. Dim ond at y dibenion a nodwyd gan eich sefydliad yn eich Cais am Grant, ac a gymeradwywyd gennym ni, y gellir defnyddio'r grant. Os nad ydych yn gallu defnyddio'r grant at y diben penodol hwn, bydd gofyn i chi ad-dalu'r grant yn llawn.

c. Ni chaniateir arallgyfeirio unrhyw ran o'r grant (nac incwm a enillir ar sail y grant) ar gyfer gweithgareddau nad ydynt er budd y cyhoedd. Rhaid defnyddio'r holl arian at ddibenion elusennol yn unig (yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr).

d. Rydych yn cytuno ac yn derbyn na fyddwch yn gwneud cais am grant o ffynhonnell arall ar gyfer rhan o'r un prosiect nac unrhyw gostau gweinyddol cysylltiedig sydd yn cael eu hariannu'n llawn gennym ni.

e. Os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r prosiect cyn neu yn ystod y cyfnod gweithredu, neu i'r amserlen arfaethedig, dylid trafod hyn â'r Elusen ymlaen llaw, a chael cadarnhad ysgrifenedig ar gyfer unrhyw newidiadau. Pan wneir newidiadau heb gymeradwyaeth gennym ni, byddwn yn hawlio'n ôl unrhyw arian sydd heb gael ei defnyddio at y diben a fwriadwyd.

f. Rhaid i'r prosiect ddechrau o fewn deuddeng mis o ddyddiad y Llythyr Cynnig Grant (oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr Elusen) a'i gwblhau erbyn y dyddiad a ddangosir yn eich cais. Rhaid i chi gysylltu â ni ar unwaith os bydd

***Use of Grant***

*a. The Grant Acceptance Form must be returned to Elusen Ogwen within 21 days having been signed by an authorised officer of your organisation. By signing it you confirm that to the best of your knowledge the information given in your Grant Application is accurate and agree that your organisation will adhere to these terms and conditions.*

*b. The grant may be used only for the purposes outlined by your organisation in your Grant Application as approved by us. If you are unable to use the grant for the specific purpose for which it was intended, you will be required to repay the grant in full.*

*c. No portion of the grant (or income earned on granted funds) may be allocated towards activities which are not for public benefit. All funds must be used exclusively for charitable purposes (acording to English and Welsh law).*

*d. You agree and accept that you will not apply for duplicate funding in respect of any part of the project or any related administration costs that we are funding in full.*

*e. If any significant changes need to be made to the project before or during implementation, or if the project's timetable is delayed, you must discuss this with us in advance, and obtain written approval for any variations. Where changes are made without our agreement, we will reclaim any funds that have not been used for the intended purpose.*

*f. The project must start within twelve months of the date of the Grant Offer Letter (unless otherwise agreed by us in writing) and completed by the date shown in your application. You must contact us immediately if*

y prosiect yn cael ei oedi am unrhyw reswm.

*the project is delayed for any reason.*

g. Ar ôl cwblhau prosiect, dylai unrhyw ran o'r grant sydd heb ei wario gael ei ddychwelyd at yr Elusen.

*g. On completion of a project, any unspent portion of the grant must be returned to us.*

h. Efallai y cynigir grant i chi na fydd ond yn cael ei dalu pan fydd amodau penodol wedi cael eu bodloni. Rhaid hawlio grantiau o'r fath yn ysgrifenedig gyda thystiolaeth eich bod wedi bodloni'r amodau. Mae'r Elusen yn neilltuo'r hawl i gadw'n ôl unrhyw grant os nad ydym yn fodlon bod eich sefydliad mewn sefyllfa i wario'r arian neu os nad ydych wedi bodloni'r amodau yn foddhaol.

*h. You may be offered a grant which will only be paid when specific conditions have been met. Such grants must be claimed in writing with evidence that you have met the conditions. We reserve the right to withhold payment of any grant if we are not satisfied that your organisation is in a position to spend the money or if you have not met the conditions satisfactorily.*

i. Oni nodir hynny'n ysgrifenedig gan yr Elusen, ni chaniateir defnyddio'r grant ar gyfer talu ffioedd proffesiynol (e.e. ffioedd pensaer neu syrfëwr).

*i. Unless specified by us in writing, the grant may not be allocated towards professional fees (e.g. architect's or surveyor's fees).*

j. Ni fydd y grant yn cael ei gynyddu os bydd eich sefydliad yn gorwario wrth weithredu'r prosiect.

*j. The amount of the grant will not be increased in the event of any overspend by you in your delivery of the project.*

k. Mae atebolrwydd yr Elusen mewn perthynas â'r prosiect wedi'i gyfyngu i dalu'r grant.

*k. Our liability in relation to the project is limited to payment of the grant.*

**2. *Adrodd yn ôl***

*Bydd angen i chi gadw cofnod llawn o'ch treuliau yn ystod eich prosiect, ac ar ôl ei gwblhau bydd angen i chi gyflwyno adroddiad i'r Elusen yn dangos sut y defnyddiwyd y grant a beth oedd canlyniadau'r prosiect.*

***2. Reporting***

*You will need to keep a full record of your expenses during your project, and on completion you will need to provide us with a report showing how the grant was used and what were the results of the project.*

**3. *Ymweliadau a Dogfennau***

*Rhaid cadw cyfrifon cywir, ar gyfer eich sefydliad ac ar gyfer y prosiect a gefnogir gan y grant. Mae hyn yn cynnwys cadw derbynebau a thystiolaeth o wariant. Rhaid i'r rhain fod ar gael i'w harchwilio ar unrhyw adeg resymol.*

***3. Visits and documentation***

*Proper accounts must be kept, both for your organisation and for the project supported by our grant. This includes retention of receipts and evidence of expenditure. These must be available for inspection at any reasonable time.*

**4. *Eiddo Deallusol a Chyfrinachedd***

a. *Ni chaniateir trosglwyddo na neilltuo unrhyw arian nac unrhyw hawliau sy'n ymwneud â'r grant i sefydliad neu unigolyn arall, oni bai eich bod wedi gwneud cytundeb, wedi'i*

***4. Intellectual Property and Confidentiality***

*a. You may not transfer or assign any part of the grant or any rights relating to it to another organisation or individual, unless you have entered into an agreement which has been*

*awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr Elusen, sy'n caniatáu ichi weithio gyda sefydliad arall i weithredu'r prosiect.*

*authorised by us in writing permitting you to work with another organisation in delivering the project.*

b. *Rhaid i chi sicrhau bod gennych fesurau diogelwch priodol ar waith i amddiffyn y data personol sydd yn eich meddiant. Dyma egwyddor 'uniondeb a chyfrinachedd' y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).*

*b. You must ensure you have appropriate security measures in place to protect the personal data you hold. This is the 'integrity and confidentiality' principle of the General Data Protection Regulation (GDPR).*

**5. *Atal neu Derfynu'r Grant / Ad-dalu'r Grant***

*Os nad fydd eich sefydliad yn ateb y gofynion a nodir yn y ddogfen hon, mae Elusen Ogwen yn neilltuo'r hawl i fynnu bod y grant yn cael ei ad-dalu ar unrhyw adeg:*

a. *Bydd yn rhaid ad-dalu'r grant o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:*

- *os bydd y sefydliad yn mynd yn fethdalwr*
- *os bydd y sefydliad yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr neu'r derbynnydd, neu'n cael ei ddiddymu*
- *os bydd y sefydliad yn peidio â bod yn elusen gofrestredig neu fod â statws elusennol*
- *os bydd y sefydliad yn dod yn gyfreithiol anghymwys i ddal y grant*
- *os nad yw'r prosiect y dyfarnwyd y grant iddo wedi'i gwblhau*
- *os nad yw arian wedi'i wario'n llawn.*

b. *Efallai y bydd yr Elusen yn atal talu'r grant cyfan neu ran ohono os ydym am ymchwilio i unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r grant. Nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ganlyniadau uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n deillio o atal taliadau, hyd yn oed os nad yw'r ymchwiliad yn canfod unrhyw destun pryder.*

c. *Os nad yw'ch sefydliad yn ateb y gofynion a nodir yn y ddogfen hon, mae Elusen Ogwen yn neilltuo'r hawl i ofyn am ad-daliad ar unrhyw adeg. Er enghraifft, os:*

- *byddwch yn gweithredu mewn ffordd a allai, ym marn resymol yr Elusen, wneud niwed sylweddol i'n henw da neu ewyllys da*

***5. Suspension or Termination of Grant / Repayment of Grant***

*If your organisation does not meet the requirements set out in this document, Elusen Ogwen reserves the right to require repayment of the grant at any time:*

*a. We will require repayment of the grant in any of the following circumstances:*

- *if your organisation becomes insolvent*
- *if your organisation goes into administration, receivership or liquidation*
- *if your organisation ceases to be a registered charity or hold charitable status*
- *if your organisation becomes legally ineligible to hold the grant*
- *if the project for which the grant was awarded has not been completed*
- *if funds have not been fully spent.*

*b. We may suspend payment of all or part of the grant if we wish to investigate any matters concerning the grant. We accept no liability for any consequences, whether direct or indirect, of a suspension, even if the investigation finds no cause for concern.*

*c. If your organisation does not meet the requirements set out in this document, Elusen Ogwen reserves the right to require repayment at any time. For example, if*

- *you act in a way in which in our reasonable opinion has the potential to damage materially our reputation or goodwill*

- *byddwch yn methu â rhoi gwybod i ni am unrhyw faterion yr ydych yn ymwybodol ohonynt trwy gydol y prosiect a allai niweidio ein henw da*
- *gwnaethoch chi, neu unrhyw berson neu sefydliad arall sy'n gweithredu ar eich rhan, roi unrhyw wybodaeth sylweddol gamarweiniol neu wallus i'r Elusen, boed yn fwriadol neu'n ddamweiniol, yn ystod y broses ymgeisio, neu yn ystod y prosiect*
- *byddwch chi neu aelodau o'ch corff llywodraethu, gweithwyr neu wirfoddolwyr yn dod yn destun ymchwiliad gan yr Heddlu, y Comisiwn Elusennau, Cyllid a Thollau EM neu gorff rheoleiddio arall.*

- *you fail to inform us of any issues you are aware of throughout the duration of the project which could damage our reputation*
- *you or any other person or organisation acting for you gave us any significantly misleading or inaccurate information, whether deliberately or accidentally, during the application process, or during the project.*
- *you or members of your governing body, employees or volunteers become subject to a formal enquiry by the Police, Charity Commission, HM Revenue and Customs or other regulatory body.*

**6. *Cyffredinol***

*Nid yw Elusen Ogwen yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ganlyniadau uniongyrchol neu anuniongyrchol a allai ddeillio o weithredu eich prosiect, defnyddio'r grant, neu o atal neu derfynu'r grant. Os ydych chi'n talu unrhyw ran o'r grant i drydydd parti, chi sydd yn gyfan gwbl gyfrifol am eu dewis ac am sicrhau eu bod yn defnyddio'r grant yn unol â'r telerau ac amodau hyn.*

***6. General***

*Elusen Ogwen accepts no liability for any consequences, whether direct or indirect, that may arise from the running of your project, the use of the grant, or from suspension or termination of the grant. If you pay any or part of the grant to a third party, you have sole control over their selection and you are responsible for ensuring that they use the grant in compliance with these terms and conditions.*